Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llandegfan
**Llandegfan**
**Porthaethwy**
**Ynys Môn**
**LL59 5UW**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 05/02/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Llandegfan wedi ei lleoli ym mhentref Llandegfan, sydd yn agos i dref Porthaethwy, ar Ynys Môn. Mae'n darparu addysg i ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed. Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig o amgylch. Mae 143 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Nid oes un disgybl o oed meithrin yn yr ysgol. Mae chwe dosbarth yn yr ysgol, gyda dau ohonynt yn rhai oed cymysg. Mae uned anghenion dysgu ychwanegol, sef Uned y Glannau sy'n gwasanaethu'r ardal, hefyd wedi'i lleoli yn yr ysgol.

Derbynia'r ysgol y disgyblion yn amser llawn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae tua hanner y disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol neu gymysg.

Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Ychydig iawn o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae 12% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol ac ychydig iawn o'r disgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Medi 2010. Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Ionawr 2014.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Llandegfan yn 2015-2016 yw £3,784. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Ynys Môn yw £6,763 a'r lleiafswm yw £2,889. Mae Ysgol Llandegfan yn y 42fed safle o'r 47 ysgol gynradd yn Ynys Môn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda
- bod bron pob disgybl yn cyrraedd safon uchel o ddwyieithrwydd ac yn medru newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith
- bod disgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol ar draws y cwricwlwm
- bod bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith
- ei bod yn darparu ystod eang a chyfoethog o brofiadau dysgu i'w disgyblion
- bod iddi ethos cynhwysol a chefnogol lle teimla'r disgyblion yn ddiogel

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'n dda oherwydd bod:

- y pennaeth yn cynnig arweinyddiaeth gadarn a chyfeiriad strategol clir ar gyfer yr ysgol
- gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel a lles da disgyblion ac wedi ei chyfleu'n llwyddiannus i'r staff, y disgyblion, y rhieni a'r llywodraethwyr
- staff yn cydweithio fel tîm ac yn hybu ethos cynhwysol ar gyfer yr holl ddisgyblion
- gan yr ysgol ddealltwriaeth gywir o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen iddi eu gwella
- y cynllun datblygu ysgol yn cynnwys strategaethau manwl ar gyfer mynd i'r afael â'r hyn sydd angen ei gyflawni mewn perthynas â chodi safonau
- y corff llywodraethol yn wybodus, yn gefnogol ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn llwyddiannus am ei pherfformiad
- partneriaethau buddiol yn bodoli gyda rhieni, y gymuned leol a sefydliadau eraill sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion

## Argymhellion

A1 Parhau i wella presenoldeb

A2 Sicrhau bod athrawon yn darparu her gyson i’r disgyblion o allu uwch

A3 Sicrhau bod arferion gorau asesu ar gyfer dysgu yn cael eu gweithredu’n gyson ar draws yr ysgol

A4 Sicrhau cyfleoedd priodol i aelodau’r uwch dîm rheoli ymgyfarwyddo a datblygu eu rolau arweinyddol

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

| **Prif ganfyddiadau** |
|---|

| **Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?** | **Da** |
|---|---|

**Safonau: Da**

Ar fynediad i'r ysgol, mae gan ran fwyaf y disgyblion fedrau sylfaenol sy'n briodol i'w hoed ac eithrio yn y Gymraeg, sy'n newydd i tua hanner ohonynt. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda. Maent yn defnyddio eu medrau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol ac yn dangos diddordeb a dyfalbarhad yn y gwersi.

Mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n effeithiol ar draws y Cyfnod Sylfaen. Mae medrau llafar disgyblion o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gallu cyfathrebu yn glir ac yn hyderus yn y Gymraeg gan ddefnyddio amrywiaeth o eirfa sy'n briodol ar gyfer eu hoed. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymateb yn eiddgar i gwestiynau'r athrawon ac yn awyddus i gyfrannu at drafodaethau. Mae'r rhan fwyaf yn medru mynegi barn mewn modd aeddfed am ystod o destunau ac yn gwrando'n astud ar gyfraniadau eraill, gan ystyried eu safbwyntiau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae medrau llafar Saesneg rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda. Maent yn cyfathrebu'n eglur ac effeithiol ac yn defnyddio geirfa eang wrth fynegi barn a siarad am eu gwaith yn y dosbarth. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd safon uchel o ddwyieithrwydd ac yn medru newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Mae safon darllen rhan fwyaf disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn briodol i'w hoed a'u gallu. Mae rhan fwyaf ohonynt yn darllen yn gynyddol rugl ac ar gyflymder addas. Mae ganddynt wybodaeth gadarn am gynnwys eu llyfrau a gallant fynegi barn yn hyderus am eu hoff ran neu gymeriad. Mae llawer o'r disgyblion yn ymwybodol o'r strategaethau amrywiol y gellir eu defnyddio i'w helpu i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn gynyddol gywir a hyderus yn y Gymraeg. Maent yn cymhwyso eu medrau darllen yn dda i gefnogi eu gwaith mewn ystod o bynciau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn ystyrlon yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn mynegi barn am lyfrau ac yn disgrifio'r prif gymeriadau a rhediad y digwyddiadau o fewn y straeon yn ystyrlon. Maent yn defnyddio gwahanol strategaethau darllen yn gelfydd i ddod o hyd i wybodaeth i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gywain gwybodaeth ar yr effaith gafodd boddi Cwm Tryweryn ar Gymru.

Mae medrau ysgrifennu rhan fwyaf disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n dda. Mae llawer ohonynt yn gallu ysgrifennu yn estynedig erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen gan ddefnyddio patrymau cywir a geirfa dda, er enghraifft wrth drefnu rysáit ar gyfer gwneud uwd neu ysgrifennu adroddiad papur newydd ar hanes Jona a'r morfil. Mae llawer o'r disgyblion yn datblygu llawysgrifen glir ac yn cyflwyno eu gwaith yn daclus. Mae eu medrau sillafu ac atalnodi yn briodol ar gyfer eu hoed. Yng nghyfnod

allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu mewn ystod o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Maent yn ysgrifennu'n drefnus gan gyflwyno syniadau a gwybodaeth yn rhesymegol ac yn effeithiol. Mae gwaith y rhan fwyaf ohonynt yn dangos safonau da o ran cywirdeb iaith yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae ansawdd gwaith ysgrifenedig estynedig y goreuon o ansawdd uchel, er enghraifft wrth iddynt ysgrifennu ymson am brofiadau plant yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Mae medrau rhif rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda ar draws y Cyfnod Sylfaen. Mae'r rhan fwyaf yn gweithio ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer ohonynt yn defnyddio ystod o fedrau rhif yn effeithiol ac yn hyderus mewn meysydd eraill, er enghraifft wrth helpu i ddatrys problemau ffermwr Del. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gallu defnyddio eu medrau mesur wrth bwyso cynhwysion i wneud uwd. Maent yn casglu data a'u gymhwyso yn effeithiol, er enghraifft wrth drafod eu hoff frecwast. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth dda o strategaethau rhifedd. Maent yn cymhwyso eu medrau'n fedrus ac yn datblygu strategaethau priodol gyda chywirdeb da, er enghraifft, wrth ddatrys problemau yn ymwneud â'u hastudiaeth o leoliadau yn Ffrainc yn ystod Brwydr y Somme. Maent yn casglu gwybodaeth a chanlyniadau mewn modd systematig ac yn cyflwyno eu casgliadau yn gywir ar ffurf tablau a graffiau, er enghraifft wrth gofnodi gwybodaeth am y nifer y cerddwyr fu ar yr Wyddfa yn ystod y flwyddyn neu wrth greu graff llinell i gymharu glawiad yng Nghymru a Patagonia.

Mae bron pob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys disgyblion Uned y Glannau, yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r targedau yn eu cynllun addysg unigol. Ar brydiau, nid yw disgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal ag y gallent.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol ar y deilliant disgwyliedig wedi gostwng o'r 25% uchaf i'r 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Ar y deilliant uwch, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd gan amlaf wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch dros yr un cyfnod. Mae perfformiad disgyblion mewn datblygiad mathemategol wedi gostwng o'r 25% uchaf ac yn gosod yr ysgol yn y 50% is dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg yn gosod yr ysgol gan amlaf yn y 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad disgyblion mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn gosod yr ysgol gan amlaf yn y 50% is. Ar y lefel uwch, mae perfformiad disgyblion yn amrywio'n fawr ac nid oes unrhyw batrwm cyffredinol.

Nid oes patrwm arwyddocaol o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched ar y deiliannau/lefelau disgwyliedig. Yn gyffredinol, mae'r merched yn gwneud yn well na'r bechgyn ar y deilliannau/lefelau uwch. Nid oes patrwm arwyddocaol o wahaniaeth dros gyfnod rhwng cyflawniadau disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim o'u cymharu â'u cyfoedion.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, ffitrwydd a bwyta ac yfed yn iach. Maent hefyd yn cyflawni'n dda yn eu datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae ymddygiad bron bob un o'r disgyblion yn dda ac maent yn gwrtais a chroesawgar tuag at ymwelwyr. Mae'r disgyblion yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn dangos parch at eraill mewn gwersi ac yn ystod amser chwarae. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith. Maent yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig. Fodd bynnag, dechrau datblygu mae medrau disgyblion i wella eu dysgu eu hunain.

Mae llais y disgybl yn cael sylw da. Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn grwpiau brwdfrydig o ddisgyblion ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn weithgar yn yr ysgol, er enghraifft wrth drefnu arolwg o'r sefyllfa amser chwarae a chynnig syniadau ar sut y gellir gwella'r ddarpariaeth. Mae'r aelodau'n trefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer nifer o elusennau a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill. Mae disgyblion yn cyfrannu'n helaeth yn y gymuned ac yn cymryd rhan flaenllaw mewn digwyddiadau cymdeithasol yn lleol.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yr ysgol wedi disgyn dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae ymhlith y 50% is a'r 25% isaf o ysgolion tebyg dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae bron bob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol yn dda. Mae'r athrawon yn cynllunio'n fanwl i ddarparu ystod gyfoethog o brofiadau dysgu diddorol sy'n enyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion. Darperir profiadau diddorol i hyrwyddo'r dysgu yn y Cyfnod Sylfaen mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd y tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys clwb hoci a chriced, sy'n cyfrannu'n dda at ddatblygu lles a ffitrwydd disgyblion. Mae ymweliadau lleol, er enghraifft i gastell Caernarfon a theithiau ymhellach i Gaerdydd, yn cyfoethogi'r profiadau a chefnogi'r dysgu yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn fwriadus i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae'r athrawon yn cynllunio'n gelfydd i sicrhau cyfleoedd cyson i'r disgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol ar draws y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn defnyddio amrywiaeth o raglenni ymyrraeth rhifedd a llythrennedd yn effeithiol er mwyn targedu grwpiau o ddisgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn effeithiol. Mae ymrwymiad yr ysgol i Siarter iaith Ynys Môn yn hyrwyddo defnydd disgyblion o'r Gymraeg yn

llwyddiannus. Mae'r athrawon yn darparu ystod gyfoethog o brofiadau gwerthfawr i hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru, er enghraifft drwy astudio chwedlau o'r Mabinogi a gwaith arlunwyr lleol fel Kyffin Williams.

Mae'r profiadau ar gyfer hyrwyddo datblygiad cynaliadwy yn dda. Mae'r ysgol yn cynnig profiadau gwerthfawr i hybu ymwybyddiaeth y disgyblion am sut i fyw mewn modd cynaliadwy, fel sefydlu tîm arbed ynni a chodi arian i osod paneli solar. Mae'r athrawon hefyd yn darparu cyfleoedd priodol i godi ymwybyddiaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang trwy astudio bywyd pobl mewn gwledydd eraill fel gwlad Pwyl.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn arwain sesiynau dysgu effeithiol a diddorol sy'n cymell disgyblion i ddysgu. Mae'r holl staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau llafar. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, ble mae'r addysgu ar ei orau, mae'r athrawon yn cysylltu eu gwersi'n glir â dysgu blaenorol ac yn defnyddio ystod o ddulliau'n fedrus. Maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir, yn sicrhau cyflymder da i'r sesiynau ac yn holi'r disgyblion yn effeithiol mewn dull sy'n eu hannog i roi atebion estynedig. Yn yr ychydig enghreifftiau, lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, mae cyflymdra'r gwersi yn araf ac nid oes bob amser ddigon o her i sicrhau bod disgyblion o allu uwch yn gwneud cynnydd llawn.

Mae'r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o fwriadau dysgu'r gwersi ac maent yn cynnig adborth gwerthfawr iddynt yn amserol. Mae gwaith disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd. Lle mae'r marcio yn fwyaf effeithiol, er enghraifft yn y llyfrau iaith, mae sylwadau'r athrawon yn cynnig arweiniad clir iddynt ar sut i wella'r gwaith. Er hyn, nid yw arferion gorau asesu ar gyfer dysgu'n cael eu gweithredu'n ddigon cyson ar draws yr ysgol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cynhwysfawr ar gyfer cofnodi cynnydd disgyblion. Mae'r athrawon yn defnyddio canlyniadau asesiadau yn effeithiol i drefnu cymorth ychwanegol i ddisgyblion penodol, sy'n cyfrannu at wella safonau, er enghraifft darllen bechgyn. Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plant ac mae adroddiadau blynyddol yn bodloni'r gofynion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, gynhwysol a chefnogol sy'n hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion yn dda. Mae ganddi bolisïau a threfniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae cyfnodau cyd-addoli yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion. Mae'r ysgol yn hybu ymddygiad da yn llwyddiannus ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad cymdeithasol y disgyblion. Yn ddiweddar, mae gweithdrefnau cadarn wedi cael eu mabwysiadu i wella presenoldeb sydd eisoes wedi arwain at welliant. Mae'n hyrwyddo datblygiad diwylliannol disgyblion yn effeithiol.

Gwneir defnydd effeithiol o gymorth gwasanaethau arbenigol allanol yn cynnwys y gwasanaethau lles addysg, cymdeithasol, meddygol a’r heddlu. Llwydda’r ysgol i fodloni anghenion disgyblion yn dda drwy dargedu cymorth arbenigedd a chefnogaeth yn bwrpasol. Enghraifft dda o hyn yw ymweliadau cyson yr heddlu i hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o gadw’n ddiogel. Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau manwl i adnabod anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn fuan ac i sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys ar draws holl weithgareddau’r ysgol. Mae targedau cynlluniau unigol y disgyblion yn glir a mesuradwy ac yn cynnig arweiniad i’r athrawon ar wahanol strategaethau ar gyfer trefnu cynhaliaeth briodol. Mae’r rhieni a’r disgyblion yn cael eu cynnwys yn briodol yn y broses o’u llunio a’u hadolygu.

Mae Uned y Glannau yn cynnig darpariaeth arbenigol o safon uchel i fodloni anghenion y disgyblion hynny sy’n ei mynychu. Mae’r gwaith wedi ei dargedu’n ofalus ar eu cyfer ac mae cynnydd y disgyblion yn cael ei gofnodi a'i werthuso'n gyson.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned hapus ag iddi ethos cartrefol a chynhwysol. Mae gan bob disgybl fynediad llawn i’r cwricwlwm. Mae polisïau a gweithdrefnau clir yn sicrhau cyfle cyfartal i bawb ac yn hybu cydraddoldeb a dealltwriaeth o amrywiaeth a thegwch yn llwyddiannus. Mae’r ysgol yn annog cydweithrediad, gofal a pharch rhwng oedolion a phlant a rhwng plant a’i gilydd yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn ymfalchïo yn y gymuned hapus a chefnogol sy’n bodoli.

Mae dyluniad yr adeilad yn anarferol, gyda mwy nag un lefel weithio ym mwyafrif y dosbarthiadau. O ganlyniad, nid oes mynediad mewn cadair olwyn i bob rhan o’r adeilad. Mae’r adeilad yn cynnig digon o le, a gwneir defnydd pwrpasol o bob rhan ohono ac o’r adnoddau awyr agored, i fodloni anghenion y Cyfnod Sylfaen. Mae’r staff wedi creu amgylchedd dysgu diogel a deniadol ac mae arddangosfeydd symbylus a phwrpasol ym mhob rhan o’r ysgol. Manteisir yn effeithiol ar dir eang yr ysgol i ddarparu ardaloedd addysg awyr agored, cynnal chwaraeon, dathlu amrywiaeth y byd natur a thyfu llysiau. Mae’r tir a’r adeilad yn cael eu cynnal a'u cadw'n raenus gyda safon uchel o lanweithdra.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae’r pennaeth yn cynnig arweiniad cadarn a chyfeiriad strategol clir i’r ysgol. Mae ganddo weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel a lles da disgyblion. Mae’r weledigaeth hon wedi ei chyfleu’n llwyddiannus i’r staff, y disgyblion, y rhieni a’r llywodraethwyr. Mae pob aelod o staff yn deall eu rolau a’u cyfrifoldebau yn dda ac yn barod i rannu baich gwaith. Mae cyfarfodydd staff, sy’n canolbwyntio ar flaenoriaethau’r ysgol, yn rhoi'r cyfle iddynt ddatblygu dulliau a strategaethau effeithiol ar gyfer gwella’r addysgu. Cyfranna hyn at greu awyrgylch lle mae pawb yn

cydweithio fel tîm ac yn hybu ethos cynhwysol ar gyfer yr holl ddisgyblion. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi mynd ati i ailstrwythuro'r uwch dîm rheoli. Fodd bynnag, mae'n rhy fuan i weld effaith hyn ar safonau gwaith disgyblion a gweithdrefnau'r ysgol.

Mae trefniadau priodol ar gyfer rheoli perfformiad staff yn seiliedig ar flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella, ac yn arwain at gyfleoedd buddiol i hyrwyddo a datblygu ymhellach safonau'r disgyblion ac ansawdd yr addysgu.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn gydwybodol ac mae gan yr aelodau wybodaeth dda am ei chryfderau a'r mannau mae angen iddi eu gwella. Maent yn cymryd rhan weithredol wrth arfarnu gwaith yr ysgol ac wrth benderfynu ar flaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Maent yn deall arwyddocâd data a chanlyniadau ac mae ymweliadau aelodau unigol o'r corff â'r ysgol yn cynnig gwybodaeth barhaus iddynt am y ddarpariaeth a deilliannau'r disgyblion. Mae hyn yn eu galluogi i ddwyn yr ysgol i gyfrif yn llwyddiannus am ei pherfformiad.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel datblygu strategaethau llythrennedd a rhifedd, ac wrth ddatblygu ysgrifennu estynedig disgyblion yn benodol. Mae'r ysgol yn ymateb yn fwriadus i Siarter Iaith Ynys Môn. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddefnydd disgyblion o'r iaith Gymraeg y tu allan i'r dosbarth.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer hunanarfarnu, sy'n seiliedig ar ystod eang o wybodaeth uniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys arsylwadau gwersi, craffu ar lyfrau, cynnal teithiau dysgu a dadansoddiad manwl o ddata perfformiad. Mae'r ysgol yn ystyried barn y disgyblion yn dda. Fodd bynnag, nid oes strwythur ar gyfer casglu barn y rhieni. Mae'r weithdrefn hunanarfarnu yn sicrhau bod gan yr holl staff ddealltwriaeth gywir o gryfderau'r ysgol a'u rôl wrth ddatblygu'r meysydd sydd angen iddi eu gwella.

Mae'r ddogfen hunanarfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn dangos bod gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o'i sefyllfa gyfredol. Mae'r barnau a'r dadansoddiadau yn fanwl ac mae cyswllt amlwg rhwng prif flaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol a deilliannau'r gweithdrefnau hunanarfarnu. Mae hyn yn cynnwys ymateb i'r cynllun datblygu blaenorol a thargedau penodol eraill.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn ddogfen weithredol sy'n cynnwys strategaethau manwl ar gyfer mynd i'r afael â'r hyn sydd angen ei gyflawni mewn perthynas â chodi safonau. Mae'r cynllun yn cyfeirio'n benodol at dargedau perthnasol a mesuradwy, cyllid ac amserlen benodol, ynghyd â chyfrifoldebau staff.

Rhoddir blaenoriaeth briodol i flaenoriaethau cenedlaethol fel y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd o fewn cynllun datblygu'r ysgol. Mae camau gweithredu'r ysgol mewn cynlluniau gwelliant yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion ar draws yr ysgol, ac yn benodol, er enghraifft, ar godi safon darllen y bechgyn.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol nifer o bartneriaethau buddiol sy'n ehangu a chyfoethogi profiadau'r disgyblion, ac yn cyfrannu'n dda at godi eu safonau a'u lles.

Mae'r ysgol wedi sefydlu partneriaeth fuddiol gyda'r rhieni. Mae'r rhieni, trwy'r Gymdeithas Cyfeillion, yn sicrhau cronfa ariannol ar gyfer prynu adnoddau newydd fel cyfarpar TGCh ac ehangu cyfleoedd chwarae ar y buarth. Cyfranna hyn yn helaeth at wella safonau a lles y disgyblion.

Mae partneriaeth effeithiol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r gymuned leol gan gynnwys yr eglwysi a'r capeli lleol. O ganlyniad, mae cyfleoedd da i'r disgyblion gynnal gwasanaethau a chyngherddau yn gyhoeddus. Mae'r partneriaethau i hybu diwylliant Cymreig, fel eisteddfodau lleol a gweithgareddau'r Urdd, yn galluogi'r disgyblion i ymarfer eu medrau cyfathrebu a chymdeithasol yn dda mewn amgylchedd Cymreig.

Mae partneriaethau agos gyda nifer o asiantaethau'r awdurdod lleol a'r awdurdod iechyd yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad lles a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae'r trefniadau ar gyfer derbyn disgyblion newydd o'r ysgol feithrin wedi eu sefydlu'n gadarn. Yn yr un modd, mae trefniadau pontio gyda'r ysgolion uwchradd lleol hefyd yn sicrhau trosglwyddiad llyfn i'r disgyblion hŷn. Mae trefniadau effeithiol i gefnogi'r pontio rhwng Uned y Glannau a'r ysgolion lleol mae rhai o'r disgyblion yn eu mynychu yn y prynhawn.

Mae partneriaethau effeithiol yn bodoli rhwng ysgolion y dalgylch er mwyn sicrhau cysondeb wrth safoni a chymedroli gwaith y disgyblion a chynnig cyfleoedd eang i ddatblygu agweddau o'r ddarpariaeth yn yr ysgolion unigol. Enghraifft nodedig yn yr ysgol hon yw'r ffordd y mae'n ceisio datblygu medrau mathemateg disgyblion o allu uwch. Enghraifft arall yw'r prosiect ynni sydd wedi ei sefydlu ar y cyd ag ysgolion cyfagos a diwydiant lleol sy'n cynnig cyfleoedd a phrofiadau gwerthfawr i'r disgyblion ehangu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd gwyddoniaeth a pheirianneg.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol nifer briodol o staff i fodloni anghenion y disgyblion a gofynion y cwricwlwm. Gwneir defnydd effeithiol o arbenigedd staff, er enghraifft trwy ddefnyddio arbenigedd cymorthyddion i gefnogi disgyblion penodol. Mae'r cymorthyddion yn gwneud cyfraniad gwerthfawr tuag at annog disgyblion i wella safonau cyrhaeddiad a lles.

Mae'r athrawon yn defnyddio'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu yn effeithiol. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at ansawdd y ddarpariaeth.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw teilwng i ddatblygiad proffesiynol parhaus y staff ac mae prosesau rheoli perfformiad athrawon yn cefnogi hyn yn briodol. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithlon o'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion i sicrhau hyfforddiant buddiol sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau'r disgyblion a'r ddarpariaeth. Yn ogystal, mae cysylltiadau ysgol i ysgol yn cyfrannu'n dda at ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth y staff o ddulliau cyfoes o addysgu.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro a rheoli gwariant yn ofalus.  Maent yn sicrhau bod y gwariant wedi'i gysylltu'n ddeallus â blaenoriaethau'r ysgol.  Mae nifer y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn y Grant Amddifadedd Disgyblion yn rhy fechan i fedru adrodd yn deg ar ei effeithiolrwydd.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6602174 - Ysgol Gynradd Llandegfan**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 141 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 5.9 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 14 | 20 | 22 | 18 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 100.0 | 100.0 | 90.9 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 14 | 20 | 22 | 18 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 90.9 | 94.4 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 64.3 | 50.0 | 45.5 | 38.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 3 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 14 | 20 | 22 | 18 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 90.9 | 94.4 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 64.3 | 40.0 | 36.4 | 38.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 3 | 3 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 14 | 20 | 22 | 18 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 95.5 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 64.3 | 65.0 | 63.6 | 55.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o'r blynyddoedd o ddata perfformiad cyfnod allweddol 2 ar gyfer yr ysgol hon. Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod. http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 70 | 70<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 70 | 70<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 70 | 69<br>99%<br>97% | 1<br>1%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 70 | 70<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 70 | 66<br>94%<br>96% | 4<br>6%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 69 | 69<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 70 | 70<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 70 | 69<br>99%<br>98% | 1<br>1%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 70 | 65<br>93%<br>91% | 5<br>7%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 70 | 68<br>97%<br>95% | 2<br>3%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 66 | 60<br>91%<br>77% | 6<br>9%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 69 | 66<br>96%<br>84% | 3<br>4%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 36 | 18 | 16 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 50% | 44% | 6% | 0% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 36 | 25 | 11 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 36 | 23 | 12 | 1 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 64% | 33% | 3% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 35 | 18 | 13 | 4 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 51% | 37% | 11% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 35 | 13 | 22 | 0 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 37% | 63% | 0% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 34 | 12 | 19 | 3 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 35% | 56% | 9% | 0% | | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 36 | 14 | 22 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 39% | 61% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 32 | 8 | 18 | 4 | 2 | 4 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 25% | 56% | 12% | 6% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 33 | 17 | 15 | 1 | 0 | 3 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 52% | 45% | 3% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 34 | 20 | 14 | 0 | 0 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 59% | 41% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 36 | 22 | 14 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 61% | 39% | 0% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 27 | 9 | 17 | 1 | 0 | 8 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 33% | 63% | 4% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 35 | 8 | 22 | 4 | 1 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 23% | 63% | 11% | 3% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 36 | 22<br>61% | 8<br>22% | 6<br>17% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 29 | 9<br>31% | 16<br>55% | 4<br>14% | 0<br>0% | 7 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 33 | 14<br>42% | 19<br>58% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 22 | 10<br>45% | 9<br>41% | 3<br>14% | 0<br>0% | 13 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 36 | 16<br>44% | 18<br>50% | 2<br>6% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 32 | 17<br>53% | 13<br>41% | 2<br>6% | 0<br>0% | 3 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Edward Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| William Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Jeremy George Turner | Arolygydd Lleyg |
| Manon Eluned Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Aled Williams | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.